

Rhaglen Fentora

...cefnogaeth un-i-un i gynorthwyo
eich busnes i gyflawni ei botensial

- cefnogaeth ac arweiniad cyfrinachol a diduedd
- profiad penodol i'r sector sy'n berthnasol i'ch busnes



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813



Cynnwys

Cyflwyniad	3
Ein mentoriaid - sut maent yn gallu eich cynorthwyo	3
Meini prawf cymhwysedd	4
Sut i wneud cais ar gyfer mentora	4
Ein mentoriaid	5
Sut i gysylltu â ni	46

Allwedd Sectorau:



AMAETH AMGYLCHEDD



ÂR



BÎFF



LLAETH



COEDWIGAETH



GARDDWRIAETH



ORGANIG



DOFEDNOD



DEFAID



OLYNIAETH



ARALLGYFEIRIO



IECHYD A DIOGELWCH



ARBENIGOL



MOCH



MENTRAU AR Y CYD



GWINWYDDAETH



GWENYN



YNNIADNEWYDDU



DATBLYGIAD PERSONOL



RHEOLI BUSNES



GLASWELLTIR



SIARADWR CYMRAEG

Cyflwyniad

...arweiniad a chefnogaeth ymarferol gan ffermwyr a choedwigwyr profiadol

- A oes angen i chi ddatblygu eich busnes fferm neu goedwigaeth mewn cyfeiriad gwahanol?
- A ydych chi'n berchennog busnes sydd eisoes wedi sefydlu a fyddai'n gwerthfawrogi cael eich mentora gan unigolyn annibynnol gyda phrofiad o fater neu her benodol?
- A ydych chi'n ystyried menter neu brosiect busnes newydd a allai gynyddu eich effeithlonrwydd neu ddarparu ffrwd incwm ychwanegol?
- A ydych chi'n newydd ddyfodiad ar ddechrau'r daith sy'n chwilio am arweiniad?

Os yw unrhyw un o'r uchod yn berthnasol i chi, gallai mentora a chefnogaeth gyfrinachol gan ffermwr neu goedwigwr profiadol ddarparu'r cymorth, yr anogaeth a'r ysbrydoliaeth sydd arnoch ei angen.

Ein mentoriaid a sut maent yn gallu eich cynorthwyo

Mae gan Cyswllt Ffermio rwydwaith cydnabyddedig o 63 mentor wedi'u lleoli ledled Cymru.

Gall mentor Cyswllt Ffermio...

- Ddarparu safbwynt annibynnol, diduedd a chyfrinachol
- Drafod eich problemau, pryderon a'ch nodau ar gyfer y dyfodol
- Ddarparu clust i wrando ar eich syniadau
- Rannu eu profiadau gyda chi, boed yn llwyddiannau neu'n fethiannau
- Eich herio i gyflawnhau eich syniadau
- Eich cynorthwyo i adnabod problemau a chanfod datrysiadau

Er mwyn darganfod mwy am gefndir, sgiliau ac arbenigedd pob mentor, gallwch edrych dros y 'cyfeiriadur mentoriaid' manwl a geir yma: www.llyw.cymru/cyswlltffermio.

Rhaglen Fentora – meini prawf cymhwysedd

...cyrraedd mwy o unigolion, cefnogi mwy o fusnesau

Categori busnes (wedi'i gadarnhau wrth gofrestru)	Rhaglen Fentora
- Busnes fferm - Busnes coedwigaeth - Newydd ddyfodiaid - Systemau ffermio/coedwigaeth arbenigol dros 550 awr o lafur cyffredinol bob blwyddyn - Busnes bwyd	Mentora fferm/coedwigaeth un-i-un Darparu 15 awr gefnogaeth yn ystod cyfnod o 12 mis, gan ddechrau o'r dyddiad pan fydd y cais ar gyfer y gwasanaeth yn cael ei gymeradwyo

Sut i wneud cais ar gyfer mentora

Cwblhewch ffurflen gais y Rhaglen Fentora ar-lein yma:
www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Yma cewch broffiliau llawn ar gyfer pob mentor a gallwch gyfyngu eich dewis trwy ddefnyddio'r dyfais hidlo sy'n chwilio am fentoriaid sy'n gweddu yn union i'ch anghenion.

Byddwch yn derbyn e-bost gan Cyswllt Ffermio yn cadarnhau bod eich cais wedi cael ei gymeradwyo.Yna bydd eich mentor yn cysylltu â chi i drefnu eich cyfarfod cyntaf.

Bydd hyn fel arfer yn digwydd wyneb i wyneb, ac yna bydd y berthynas mentor/mhentai gweithredol yn parhau yn y ffurf fwyaf addas fel y caiff ei gytuno gan y ddwy ochr.

Ein mentoriaid

Alan Davies, Fferm Llys	6	James Raw, Tyllwyd	25
Alan Parry Jones, Derwen Gam	7	Jenny Davies, Llwynhelyg	26
Aled Jones, Tregeiriog	7	John Booth, Rhual Dairy	26
Aled Rhys Jones, Hendy	8	Jim Bowen, Clynfyw	27
Alice Lampard, Mandinam Farm	8	John Davies, Cilrhue	27
Alwyn Edwards, Holmlea	9	John Yeomans, Llwyn y Brain	28
Alwyn Jones, Camaes	9	Keith Williams, Hendy	28
Andy Matthews, Aberbran Fawr	10	Keri Davies, Glwydcaenewydd	29
Andy Menzies, Ty Mawr Uchaf	10	Lilwen Joynson, Y Felin Fach	29
Arwyn Williams, Hendre Nantcyll	11	Lowri Rees-Roberts, Dolhendre Isa	30
Barbara Hughes, Ivy House Farm	11	Llŷr Hughes, Fferam Gyd	30
Ben Anthony, Frowen	12	Llyr Jones, Abercefel	31
Brian Rees, Penbryncennau	12	Malcolm Thomas, Ty'n y Caeau	31
Carys Edwards, Ty Cerrig	13	Mark Davies, The Meadows	32
Cheryl Davies, Cefn y Maes	13	Matt Swarbrick, Henbant	32
Chris Hughes, Coed Pwllacca	14	Meirion Jones, Tŷ Llwyd	33
Christopher James, Home Farm	14	Neil Stoddart, Nantygwynau	33
Dafydd Parry Jones, Maesllwyni	15	Peter Williams, Great House Farm	34
David Brooke, Tanycoed	15	Phil Morgan, Plas y Wenallt	34
David Gravell, Mudlescwm Farm	16	Phillip Jones, Lan Farm	35
David Williams, Clawdd Offa	16	Rhidian Glyn, Rhiwgriafol	35
Delyth Parry, Llwynrhydill	17	Rhys Edwards, Hendre Ifan Goch Farm	36
Eilir Evans, Henbant	17	Rhys Williams, Trygarn	36
Eurig Jenkins, Pentrefelin	18	Richard Gibb, Church Cottage	37
Gareth Davies, Upper House	18	Richard Isaac, Mynachdu Farm	37
Gary Rees, Brooksgrove Farm	19	Richard Roderick, Newton Farm	38
Gethin Jones, Hafoty Hendre	19	Richard Rogers, Cefndderwen	38
Glasnant Morgan, Pwllyrhwyaid	20	Richard Tudor, Glanystwyth	39
Glyn Davies, Penlan	20	Robb Merchant, Whitecastle Vineyard	39
Glyn Vaughan, Dolcorsllwyn	21	Robert Powell, Blaenbwch	40
Gwydion Jones, Tyn y Ffynnon	21	Romeo Sarra, Peepout Farm	40
Haydn Evans, Parceithin Farm	22	Siân Bushell, Sir Benfro	41
Helen Bennett, Upper Hall	22	Sion Ifans, Hen Dŷ Brynuchaf	41
Huw Jones, Prysgau Ganol Ioan	23	Teifi Davies, Llwynhelyg	42
Ioan Roberts, Tryfil Isaf	23	Terrig Morgan, Carreg y Llech	42
Ioan Williams, Brynsegur	24	Tim Prichard, Castellau Fawr Farm	43
James Cowan, Blaencwmpridd	24	Tony Davies, Henfron	43
James Powell, Dolygarn	25		



ALAN DAVIES
Fferm Llys (Sir Ddinbych)



Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Cynhyrchu wŷn yn gynnar Pesgi gwartheg bîff



ALAN PARRY JONES
Derwen Gam (Llŷn ac Eryri)



Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Godro defaid, Cynhyrchu bîff a chig oen organig, Olyniaeth



ALED JONES
Tregeiriog (Sir Ddinbych)



Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Cynhyrchu defaid a bugeilio Rheoli glaswelltir a systemau pori

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Alan yn ffermio menter 250 erw ar lawr gwlad, ac yn rhentu 210 erw ychwanegol dros y gaeaf. Mae'n prynu hyd at 250 o wartheg stôr bob blwyddyn, ac yna'n eu pesgi. Ynghyd â'r fenter bîff, mae Alan yn rheoli diadell o 700 o famogiaid magu Texel croes Miwl. Nod Alan yw datblygu busnes mwy effeithlon trwy dreialu dulliau newydd a gwahanol o weithio, gan gynhyrchu cig eidion a chig oen yn effeithlon er mwyn ymateb i ofynion y farchnad.

Mae'n cefnogi ei glwb ffermwyr ifanc lleol ac yn awyddus i rannu ei wybodaeth gyda newydd ddyfodiaid.

Y MENTOR – CRYNODEB

Dechreuodd Alan, sy'n ffermio daliad 215 erw ac yn rhentu 79 erw ychwanegol, odro defaid Llŷn Friesland yn 2017. Gyda galw cynyddol am y cynnyrch, mae Alan eisoes yn bwriadu cynyddu niferoedd y ddiadell yn ogystal ag adeiladu llaethdy i brosesu'r llaeth ar y fferm. Mae cynlluniau newydd eraill ar y gweill hefyd sef menter yn gwerthu llaeth fresh mewn poteli a llaeth wedi'i rewi o giât y fferm yn ogystal â chanolfan ymwelwyr newydd. Wedi llwyddo i newid ac addasu ei ffordd o ffermio i weddu i anghenion ei deulu a'i fusnes, mae gan Alan y gallu a'r profiad angenrheidiol i helpu eraill sy'n awyddus i arallgyfeirio i sectorau ffermio arbenigol. Mae ganddo hefyd fuches o 25 o wartheg ac mae wedi bod yn ffermio'n organig ers 2004. Mae Alan yn y broses o gyflwyno ei feibion i'r busnes ar hyn o bryd felly mae ganddo rywffaint o brofiad o olyniaeth fferm.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Aled yn gyn ffermwr arddangos Cyswllt Ffermio. Mae'n berchen ar 120 erw ac yn contractio fel bugail dros 1,000 erw. Mae ei dda byw ei hun yn cynnwys 30 o Wartheg Duon Cymreig a 40 o stoc ifanc, ynghyd â 350 o famogiaid Cymreig a Miwl a 100 o wŷn benyw. Dros y blyneddau diwethaf, mae wedi cyflwyno mamogiaid ychydig mwy o faint, sy'n galetach a mwy cynhyrchiol, ac mae hefyd wedi canolbwyntio ar wella ei laswelltir a'i systemau pori. Mae Aled wedi cynorthwyo nifer o ffermwyr i wireddu eu huchelgais o gontractio fel bugeiliaid. Mae Aled yn gredwr cryf mewn cadw llygad ar gostau er mwyn sicrhau'r incwm gorau posib.



ALED RHYS JONES
Hendy (Llŷnac Eryri)



Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Geneteg, Rheolaeth Glaswelltir



ALICE LAMPARD
Fferm Mandinam (Sir Gâr)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Mentora Cyfryngu a Datblygu



ALWYN EDWARDS
Holmlea (Brycheiniog)



Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Cynllunio coetir, Rheolaeth



ALWYN JONES
Camaes (Conwy)



Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Rheolaeth Glaswelltir

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Aled wedi gweithio mewn nifer o swyddi uchel eu proffil yn y diwydiant amaeth. Mae wedi datblygu ei fferm deuluol yn sylweddol o ran cynhyrchiant llaeth a gwerthiant heffrod a theirw pedigri. Bellach, mae gan Aled 340 o wartheg Holstein sy'n cynhyrchu 3,350,000 litr y flwyddyn. Mae'n croesawu technoleg newydd a dulliau arloesol o weithio er mwyn gwella safonau rheolaeth fferm a diogelu'r amgylchedd. Mae buddsoddiad sylweddol wedi cael ei wneud mewn dyfeisiadau arbed ynni ac mae arbedion hefyd wedi cael eu gwneud wrth leihau'r defnydd o wrtaith nitrogen trwy dargedu gwell defnydd o slyri.

Y MENTOR – CRYNODEB

Gyda chefnidir yn y diwydiant adeiladu, defaid masnachol a biff pedigri, mae gan Alice hefyd brofiad o goetir ac arallgyfeirio i faes twristiaeth. Fel arweinydd Agrisgôp mae Alice wedi gweithio gyda grwpiau amrywiol o gnydio parhaol i ffermio llawr gwlad i lobio gwleidyddol. Mae Alice hefyd yn gweithio fel hyfforddwr a chyfryngwr annibynnol, sy'n golygu bod ganddi brofiad eang o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu busnesau diwydiannau'r tir yng Nghymru.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Alwyn, sy'n goedwigwr siartredig, wedi gweithio fel ymgynghorydd coedwigaeth hunangyflogedig, gan weithio gydag amrediad o gleientiaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat fel ei gilydd i ddarparu prosiectau rheolaeth coetir, gyda chefnogaeth cyngor amgylcheddol eang. Mae ei swyddi wedi cynnwys rheoli cyllidebau cynnal a chadw blynyddol ac adrodd ar lif arian, gan ddefnyddio dadansoddiad cost mantais. Mae hefyd wedi cwblhau hyfforddiant archwilio 'Grown in Britain' yn edrych ar gyfleoedd arallgyfeirio posib a geir o reolaeth coetir trwy ychwanegu gwerth o fionas a masnach carbon hyd at y Cod Carbon.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Alwyn bob amser yn ymdrechu i wella'r ffordd y mae'n ffermio, gan rannu ei wybodaeth trwy gynnig lleoliadau gwaith a thrwy ei rôl gyda Bwrdd Hyfforddi Bro Hiraethog. Mae wedi gwella rheolaeth coetir ar ei fferm gan ddefnyddio llai o wrtaith a gwneud gwell defnydd o slyri. Fel cyn ffermwr arddangos Cyswllt Ffermio, cynhaliodd Alwyn nifer o dreialon gwahanol, er enghraifft bwydo burum dwys i ŵyn, ychwanegu protein i silwair a thyfu meillion coch. Mae pob un o'r rhain wedi arwain at gynydd mewn twf a gwell cynnydd pwysau byw dyddiol.



ANDY MATTHEWS
Aberbran Fawr (Brycheiniog)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Datblygu busnes, Arallgyfeirio



ANDY MENZIES
Ty Mawr Uchaf (Sir Drefaldwyn)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Bridio geifr a chynhyrchu cig gafr;
Datblygu cynnyrch cig gafr



ARWYN WILLIAMS
Hendre Nantcyll (Llŷn ac Eryri)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Rheolaeth Glaswelltir



BARBARA HUGHES
Ivy House Farm (Wrecsam)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Pwmpenni, ffrwythau i'w pigo eich hunain

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Andy yn gyn ffermwr arddangos Cyswllt Ffermio, ac mae ganddo dros 20 mlynedd o brofiad ffermio a chontractio. Ynghyd â'i bartner Kay, mae'n berchen ar 45 erw ac yn rhentu 480 erw ychwanegol ar sail hir dymor. Mae gan y busnes 45 o wartheg sugno Limousin croes a 500 o famogiaid croes.

Maent wedi ehangu ar eu maes gwersylla ac wedi datblygu siop i gyd-fynd â'u menter ehangach o gasglu eich ffrwythau a'ch llysiau eich hun.

Maent wedi ehangu'r tymor casglu eich ffrwythau eich hun yn sylweddol o ddechrau/canol mis Mehefin hyd at ddiwedd mis Awst, gan gynyddu hyfywedd. Mae maes saethu adar hela fechan ond llwyddiannus hefyd wedi cael ei sefydlu.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae gan Andy dros 40 mlynedd o brofiad ymarferol o weithio gyda da byw a ffermio tir â'r a chaiff y profiad hwn ei roi ar waith wrth iddo ddatblygu ei fenter eifr. Mae Andy'n ffermio 25 o eifr magu a mynnod ar ddaliad 10 erw y mae'n berchen ers dros 20 mlynedd. Yn ogystal â chynhyrchu cig gafr, mae Andy'n prynu ŵyn llywaeth a gaiff eu magu a'u gwerthu fel hesbinod. Mae'n defnyddio EID i fonitro cynnydd pwysau byw a dilyn perfformiad yr anifeiliaid sydd wedi arwain at fuddion sylweddol o fewn y busnes.

Yn llysgennad brwd dros feincnodi, mae'n monitro perfformiad ei stoc yn rheolaidd ac o'r gred mai gyda sylw at fanylder y daw llwyddiant.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Arwyn yn ffermio fferm ucheldir 390 erw ac mae o leiaf hanner ohono'n rhostir. Mae ganddo 25 o wartheg sugno Limousin croes a 425 o famogiaid magu Cymreig Tregaron. Mae hefyd yn gwneud gwaith contractio cneifio a ffensio.

Mae'r cyn ffermwr arddangos Cyswllt Ffermio yn defnyddio mamogiaid Aberdale i gynyddu ei ganran ŵyna ymhellach. Mae hefyd yn samplu pridd, sydd wedi cynorthwyo i wella ansawdd y pridd a lleihau costau gwrtaith. O ganlyniad i waith prosiect a gynhaliwyd gan Cyswllt Ffermio ar y fferm, mae bellach yn gwneud gwell defnydd o slyri ac yn defnyddio pryfed slyri i drin y tail.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Barbara'n ffermio fferm laeth 222 erw gyda'i gŵr Derek. Dechreuom trwy rentu fferm 36 erw ym 1984 cyn sicrhau tenantiaeth ar fferm arall yn yr ardal. Ym 1994, cafodd wybod y byddai carchar yn cael ei adeiladu ar y fferm gyngor, a bu'n rhaid iddynt ganfod fferm arall. Dyma sut y daethant ar draws Ivy House, fferm 70 erw yn wreiddiol. Wedi prynu'r tir o'i chwmpas, mae'r fferm erbyn hyn yn ymestyn dros 220 erw.

Yn 2010, penderfynodd Barbara arallgyfeirio i gynhyrchu pwmpenni ar gyfer Calan Gaeaf. Gan ddefnyddio cae gwag a gwybodaeth oddi ar y we, aeth ati i lwyddo gyda'r fenter. Mae'r cae ar agor yn ystod mis Hydref lle gall cwsmeriaid ddewis eu pwmpenni eu hunain. Penderfynodd arallgyfeirio'r busnes eto yn 2019 gyda menter pigo eich ffrwythau eich hunain yn tyfu melfus, a fydd yn agor i'r cyhoedd yn 2020. Dywed Barbara ei bod yn dal i ddysgu ac arbrofi i weld beth sy'n gweithio orau.



BEN ANTHONY
Frowen (Sir Gâr)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Gwella perfformiad y ddiadell, Cnydau a phorthiant a dyfir gartref



BRIAN REES
Penbryncennau (Maesyfed)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Trefnu Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch, Arallgyfeirio



CARYS WYN EDWARDS
TY Cerrig (Meirionnydd)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Mentrau gwenyn newydd, Peillio/tyfu planhigion ar gyfer gwenyn, Buddion amgylcheddol, Arallgyfeirio



CHERYL DAVIES
Cefn Y Maes (Sir Drefaldwyn)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Adnoddau Dynol, Olyniaeth, Gwella proffidioldeb

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Ben a'i bartner Diana yn berchen ar 145 erw, gan gynnwys 35 erw o goetir ac yn rhentu 110 erw ychwanegol. Mae pob penderfyniad busnes yn seiliedig ar berfformiad a phroffidioldeb. Wedi iddo gynnal ymchwil i ofynion a phrisiau'r farchnad, penderfynodd Ben leihau nifer y gwartheg a chynyddu maint y fenter ddefaid.

Mae Ben wedi gwella ei siediau defaid ac wedi blaenoriaethu buddsoddiad yn y fenter ddefaid sydd bellach yn cynnig allbynnau uchel. Mae hefyd wedi gwella perfformiad y ddiadell gan ddefnyddio EID, tynhau'r patrwm wyna a monitro'r ddiadell er mwyn canfod y famog orau ar gyfer y fferm.

**Arloeswr Defaid y Flwyddyn 2016
yng Ngwobrau Ffermio Prydain**

Y MENTOR – CRYNODEB

Yn ogystal â rheoli'r fferm 247 erw a 74 erw ychwanegol ar rent, mae Brian yn rhedeg ei fusnes hyfforddi ac ymgynghori Iechyd a Diogelwch annibynnol. Fe'i sefydlwyd y busnes, sy'n arbenigo mewn Iechyd a Diogelwch fferm, yn wreiddiol ym 1980. Mae gan Brian gymwysterau TDLB a NEBOSH ac mae'n aelod o grŵp diwydiannau gwledig yr IOSH. Mae ei feysydd o arbenigedd yn cynnwys pob agwedd o ddiogelwch fferm cyffredinol yn cynnwys gweithio gydag anifeiliaid, peiriannau codi, tractorau ac ATVs, peiriannau, plaladdwyr, gofal llawr, gweithio ar uchder, diogelwch safleoedd adeiladu ac Iechyd a Diogelwch cyffredinol.

Yn gyfathrebwr medrus a Chadeirydd presennol Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru, mae Brian wedi hyfforddi a chynghori pobl ar Iechyd a Diogelwch fferm am y rhan fwyaf o'i oes. Dywed Brian fod y rôl o ymweld a chefnogi ffermwyr i'w helpu i weithredu dulliau mwy diogel o weithio yn rhoi boddhad mawr iddo.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Carys yn wenynwraig llwyddiannus sydd wedi cystadlu mewn nifer o ddigwyddiadau a sioeau amaethyddol ar draws y Deyrnas Unedig ers dros 25 mlynedd. Mae galw mawr amdani fel siaradwraig ac mae wedi gweithio gyda nifer o sefydliadau yn cynnwys clybiau garddio, Sefydliad y Merched, ysgolion a cholegau. Ar hyn o bryd mae Carys yn ffermio fferm denantiaeth fynydd 370 erw gyda'i thad lle maent yn ffermio 300 o famogiaid mynydd Cymreig. Mae'n berchen 70 o nythfeydd gwenyn mêl ac yn bwriadu cynyddu i 200 o nythfeydd trwy symud i ddaliad newydd 26 erw a sefydlu cychod gyda thirfeddianwyr lleol eraill.

Mae Carys yn awyddus i helpu gwenynwyr posib i ddefnyddio'r arferion gorau o'r dechrau, sy'n cynnwys adnabod lleoliadau addas ar gyfer y cychod, cynghori ar offer, dod o hyd i wenyn, bwydo a chadw nythfeydd yn iach yn ogystal â thynnu a gwerthu mêl a sgîl-gynnyrch.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Cheryl yn berchen ac yn rhedeg busnes ymgynghori, yn cynghori a chefnogi ffermwyr a gweithiwr yn y diwydiant amaethyddol ar Iechyd a diogelwch, problemau gweithwyr ac amrywiol bynciau yn ymwneud â busnes gan gynnwys cynigion, adnoddau dynol, olyniaeth, arbediadau costau a phroffidioldeb. Gall Cheryl gael gwared ar yr ofn o Iechyd a diogelwch ar fferydd ac mae'n rhoi cefnogaeth i ffermwyr o ran anghenion sylfaenol.

Gyda 25 mlynedd o brofiad, gall Cheryl arwain unigolion ar sut i gael llwyddiant yn eu busnes. Mae hefyd yn deall pwysigrwydd meincnodi a sut y gall wella proffidioldeb a chynhyrchiant. Cred Cheryl bod olyniaeth a chynllunio ar gyfer y dyfodol yn allweddol yng nghyfansoddiad unrhyw fusnes ac mae wedi gweithio ar brosiectau yn ymwneud ag olyniaeth busnes yn y gorffennol.

Mae'n deall y pwysau y mae'r gymuned amaethyddol yn gallu ei wynebu ac mae'n gobeithio y gall roi'r gallu i ffermwyr weld tu hwnt i'r rhwystrau a symud eu busnesau i'r lefel nesaf.



CHRIS HUGHES
Coed Pwllacca (Brycheiniog)



CHRISTOPHER JAMES
Home Farm (Sir Benfro)



DAFYDD PARRY JONES
Maesllwyni (Sir Drefaldwyn)



DAVID BROOKE
Tanycoed (Sir Gâr)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Rheolaeth coedwigaeth a choetir; Ynni
Adnewyddadwy, Mentrau Gwledig, Hyfforddiant

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Systemau porthiant cost isel

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Rheolaeth glaswelltir a meillion Dyluniad adeiladau

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Newydd-ddyfodiaid, Datblygiad Personol

Y MENTOR – CRYNODEB

Yn ogystal â gweithio fel darparwr hyfforddiant o fewn y sectorau tir, mae Chris yn berchen 10 erw o goetir llydanddail cymysg sy'n cael ei reoli ar sail gorchudd parhaus. Ynghyd â'i wraig Anne a'u pedwar o blant, mae Chris hefyd yn rhedeg eu busnes contractio coedwigaeth a sefydlwyd gyntaf i gynhyrchu coed tân a sgloedion pren yn 1985. Mae mwyafrif o yrfa Chris wedi ymwneud â mentora o fewn y sectorau tir, yn enwedig mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a choetir, coedyddiaeth ac adeiladu.

Mae Chris yn edrych ymlaen at roi rhywbeth yn ôl trwy helpu busnesau reoli iechyd a diogelwch yn y gweithle yn seiliedig ar brofiad gwaith ymarferol.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Christopher yn aelod o sawl pwyllgor amaethyddol ac yn siaradwr cyhoeddus adnabyddus. Mae wedi ennill sawl gwobr tir glas dros y blynyddoedd.

Yn 2000, fe drawsnewidiodd y fenter o stad helaeth, gymysg i uned bori gwanwyn arbenigol, ac ers hynny, mae wedi prynu 500 erw. Mae Christopher wedi sefydlu menter ar y cyd i fagu lloeau biff llaeth o'r buchesi. Mae Christopher yn croesawu technoleg newydd gan gynnwys samplu pridd gyda thechnoleg lloeren, sy'n ei alluogi i wasgaru maethynnau ar gyfradd amrywiol, ac wedi arwain at arbedion costau sylweddol.

Ffermwyr Tir Glas y Flwyddyn Cymdeithas
Tir Glas Cymru 2015 ac yn agos i'r brig
yng nghystadleuaeth Prydain

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Dafydd wedi ehangu ei fferm ucheldir sydd bellach yn cynnwys 470 erw, gan greu system organig sy'n defnyddio glaswellt. Defnyddir meillion coch a gwyn i gynhyrchu cig oen a chig eidion o'r ansawdd uchaf, gyda chostau cynhyrchu mor isel â phosib, ar gyfer marchnadoedd premiwm.

Mae wedi datblygu system ffermio ucheldir gyda gofynion isel o ran llafur o ganlyniad i wella adeiladau a systemau trin anifeiliaid. Mae technoleg newydd a dulliau wedi'u symleiddio wedi ei gynorthwyo i leihau allbynnau ac mae'r fferm yn 100% hunangynhaliol o ran protein.

Ffermwyr Tir Glas y Flwyddyn Cymdeithas
Tir Glas Prydain 2015 a Chynhyrchwr Cig
Oen y Flwyddyn Dalehead/Waitrose 2014

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae David wedi bod yn ffermio yn nyffryn Teifi ers 25 mlynedd. Mae ei yrfa amaethyddol yn cynnwys llaeth adwerthu, gwerthu ar y fferm, cynhyrchu moch dwys ac yn fwy diweddar cynhyrchu llaeth organig. Ar ôl cychwyn ar fân-ddaliad cyngor sir, mae David hefyd wedi ffermio dramor gan gynnwys Minnesota, Fflorida ac America.

Yn 2018 ymunodd David â rhaglen Mentro Cyswllt Ffermio ac fe'i parwyd â newydd-ddyfodiad i ffermio. Erbyn hyn maent wedi bod yn ffermio mewn partneriaeth ers 9 mis, yn rhedeg busnes proffidiol yn godro 110 o wartheg y dydd. Roedd David yn cadw diadell o 80 o famogiaid Llŷn hefyd, gyda'i ddiweddar wraig. Mae ganddo brofiad hefyd o gynhyrchu wyau buarth a gwerthu ar ochr y ffordd.

Gall David gynnig cyfarwyddyd i newydd-ddyfodiad, gan ddefnyddio ei brofiad personol amrywiol i helpu'r rhai sy'n dechrau arni yn y diwydiant.



DAVID GRAVELL
Mudlescwm Farm (Sir Gâr)



Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Llaeth o borthiant, Meincodi



DAVID WILLIAMS
Clawdd Offa (Sir y Fflint)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Systemau'n seiliedig ar laswellt/porthiant
Cynllunio ariannol a busnes



DELYTH PARRY
Llwynrhdyll (Brycheiniog)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Cynllunio olyniaeth ac ariannol, Meincodi,
Deall eich busnes



EILIR EVANS
Henbant (Ceredigion)



Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Rheoli glaswelltir Mentrau ar y cyd

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae fferm 500 erw David wedi datblygu'n sylweddol trwy feincodi a throsglwyddo gwybodaeth. Yn dilyn taith astudio i Seland Newydd, sefydlodd system loea yn y gwanwyn, mewnbwn isel, yn seiliedig ar borfa, ac mae bellach yn ymdrechu i ddod o hyd i gydbwysedd rhwng ffermio'n broffidiol ac yn gynaliadwy.

Mae David yn gefnogwr brwd o grwpiau trafod sy'n darparu cyfle i archwilio heriau a chyfleoedd ac asesu cynnydd trwy feincodi, mae bob amser yn awyddus i rannu ei wybodaeth, gan groesawu nifer o ymweliadau fferm ac annog ffermwyr iau i ganfod dulliau newydd a gwell o ffermio.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae David yn ffermio fferm 296 erw ar denantiaeth gyda 198 erw'n cael eu defnyddio fel porfa i'r 300 o wartheg Jersey Friesian croes sy'n lloea yn y gwanwyn. Mae hefyd yn magu 150 o stoc ifanc cyfnewid a theirw stoc.

Trwy ganolbwyntio ar gyllidebu a monitro llif arian, mae'n rhedeg busnes cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar elw, sydd wedi'i newid o system loea trwy'r flwyddyn yn cael eu porthi ar ddog cymysg cyflawn at fuches a gedwir ar laswellt yn lloea yn y gwanwyn, sydd yn awr yn cael eu godro unwaith y dydd. Mae ganddo wybodaeth helaeth am nifer o systemau llaeth, ac mae'n gredwr brwd mewn trosglwyddo gwybodaeth.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Delyth wedi gweithio fel rheolwr banc amaethyddol ers 15 mlynedd gan gynnig arweiniad i nifer o fusnesau fferm. Mae'n annog pobl i wneud newidiadau bach sy'n arwain at welliannau sylweddol yn ogystal ag ychwanegu gwerth at eu mentrau. Yn briod â ffermwr defaid, mae'n helpu ar y fferm gyda thasgau bob dydd yn ystod adegau prysur. Mae gan Delyth wybodaeth am y mwyafrif o'r sectorau ac mae'n awyddus i helpu ffermwyr i werthfawrogi y gall y gweithredoedd a'r penderfyniadau a gymerir o fewn busnes ddylanwadu taliadau allan trwy gyfrifon masnachu.

Gyda chyfrinachedd y peth pwysicaf bob amser, mae Delyth yn awyddus i rannu ei gwybodaeth o ran arfer orau, busnes, olyniaeth a chynllunio ariannol yn ogystal â chynghori ffermwyr pryd y dylent ofyn am gymorth annibynnol gan gynghorwyr proffesiynol eraill wrth wneud penderfyniadau strategol.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Eilir ar hyn o bryd yn ffermio 330ha gyda'i bartner, Catrin. Maent wedi trawsnewid o fferm ddefaid organig 130ha i fferm laeth ac yn cadw buches o 700 o wartheg wedi'i rhannu'n ddwy uned.

Mae Eilir wedi ehangu ei fferm o 100ha i 330ha trwy gyfuniad o brynu a rhentu, ac mae'n hyderus wrth ddelio gyda'r banc, creu cyllidebau, llif arian ac adroddiadau. Mae Eilir yn credu mai rhoi beirniadaeth adeiladol yw un o'r ffyrdd gorau i unigolyn a'r busnes i wella a thyfu. Gall Eilir gynnig profiad helaeth a meddwl agored, o reolaeth glaswelltir i gyllidebu ariannol, a mentrau ar y cyd o unrhyw fath.



EURIG JENKINS
Pentrefelin (Ceredigion)



Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Systemau seiliedig ar laswellt Magu heffrod



GARETH DAVIES
Upper House (Maesyfed)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Cynllunio olyniaeth, Llety gwyliau, Meincnodi, Datblygiad Personol, Twristiaeth



GARY REES
Brooksgrove Farm (Sir Benfro)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Arallgyfeirio, Ychwanegu Gwerth



GETHIN JONES
Hafoty Hendre (Sir Ddinbych)



Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Asesiadau Risg, Adeiladu, Peiriannau

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Eurig yn bennaeth daliad ar y fferm deuluol sy'n ymestyn dros 182 erw sy'n berchen iddynt a 518 erw'n cael eu rhentu. Dywed y cyn ffermwr arddangos Cyswllt Ffermio bod y cyngor arbenigol a dderbyniwyd ganddo fel ffermwr arddangos wedi'i alluogi i ddatblygu'r fenter fferm a'i sgiliau rheoli fferm ei hun.

Mae rhaglen ehangu wedi cynnwys gosod isadeiledd sylweddol ar gyfer cynhyrchu llaeth yn broffidiol yn y tymor hir. Mae niferoedd gwartheg wedi cynyddu i 410 o wartheg sy'n lloea yn y gwanwyn a 280 o stoc ifanc.

Ffermwr Tir Glas y Flwyddyn
Cymdeithas Tir Glas Prydain 2016

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Gareth yn ffermio fferm tir glas 220 erw ac yn rhentu 75 erw ychwanegol ar gytundeb tenantiaeth sefydlog. Yn llysgennad brwd dros ddatblygiad personol a busnes, mae'n ymwybodol o'r materion olyniaeth sy'n wynebu nifer o deuluoedd ffermio heddiw. Dywed Gareth fod teuluoedd yn rhoi eu hunain dan bwysau ariannol anferth sy'n arwain at oblygiadau sylweddol o ran iechyd meddwl a pherthnasau teuluol. Yn bwnc sy'n agos iawn at galon Gareth, mae'n awyddus i rannu ei brofiad gydag eraill sydd angen 'dechrau'r sgwrs olyniaeth'.

Mae Gareth yn gweithio fel Arweinydd Agrigôp felly mae ganddo'r sgiliau mentora a hwyluso angenrheidiol i wrando a chynnig arweiniad yn seiliedig ar ei brofiadau ef fel ffermwr a dyn busnes.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Gary yn rhedeg fferm arddwriaeth 60 erw yn tyfu amrywiaeth o gynnyrch tymhorol. Gyda'i brofiad personol o dyfu cnydau a rhedeg ei fusnes ei hun, gall Gary gynnig cefnogaeth ac arweiniad i'r rhai sy'n cychwyn arni yn ogystal â garddwriaethwyr mwy profiadol sy'n gobeithio ychwanegu gwerth.

Cychwynnodd Gary trwy gynhyrchu ffrwythau meddal cyfanwerthu ond arallgyfeiriodd i fenter Hel Eich Hun yn 2013. Yn 2014 crëwyd Cae Pwmpenni sydd ar agor yn ystod mis Hydref bob blwyddyn. Mae hefyd yn ei drydedd flwyddyn o ddatblygu menter flodau.

Mae Gary yn rhoi pwyslais mawr ar ychwanegu gwerth ac mae wedi gweld gwerth brandio; marchnata a gwerthu yn uniongyrchol. Wedi gweithio ym y maes TG yn y gorffennol, mae Gary'n teimlo bod ei flynyddoedd oddi ar y fferm wedi ei alluogi i weld ffyrdd eraill o weithio o gwmpas problemau posibl a gweithredu dull ffres gan ddal i fod yn realistig am gyflawni ei nod.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Gethin yn berchen ar 65 erw o dir pori ar yr ucheldir ac yn rhentu 50 erw arall o dir isel lle mae'n cadw mamogiaid Aberdale sy'n cael hwrdd Beltex. Gyda gyrfa ym maes adeiladu, bu Gethin yn gweithio yn y gorffennol fel goruchwyliwr safle ar gontractau gwerth miliynau lawer trwy'r wlad. Bu'n rheoli ei fusnes peirianeg ac adeiladu ei hun hefyd ers deng mlynedd a bu'n gweithio fel hyfforddwr a phroffwr yn y diwydiant adeiladu.

Mae gan Gethin flynyddoedd o brofiad yn yr amgylchedd adeiladu lle mae'r ddeddfwriaeth yn gaeth ac felly mae'n deall disgwyliadau'r HSE o ran diogelwch. Ers 5 mlynedd mae Gethin wedi bod yn gweithio fel hyfforddwr, profwr ac asesydd NVQ offer a pheiriannu hunangyflogedig. Mae wedi cyflwyno nifer o gysiau iechyd a diogelwch a chynnal asesiadau risg i gwmnïau amrywiol i safonau achrededig.



GLASNANT MORGAN
Pwllrhwyaid (Brycheiniog)



GLYN DAVIES
Penlan (Ceredigion)



GLYN VAUGHAN
Dolcorsllwyn (Sir Drefaldwyn)



GWYDION JONES
Tyn y Ffynnon (Conwy)



Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Rheolaeth Glaswelltir Ynni Adnewyddadwy

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth lechyd a Diogelwch, Contractio amaethyddol

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Magu stoc pedigri ac adwerthu, Gofynion y farchnad

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Ffermio cyfran, Systemau llaeth yn seiliedig ar laswellt

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae fferm deuluol Glasnant wedi ehangu i fod dros 400 erw. Prif nod y busnes yw aros yn hunan gynhaliol, a sicrhau mai aelodau'r teulu yw'r gweithlu. Mae ganddynt 45 o wartheg sugno Charolais croes, gyda gwartheg sy'n lloea yn yr haf yn cael eu troi allan i'r mynydd i osgoi mastitis ac i ryddhau mwy o dir i'w dorri'n silwair. Mae ganddynt hefyd ddiadell gaeedig o 800 o famogiaid magu a 210 o stoc cyfnewid.

Mae arallgyfeirio i ynni gwyrdd trwy ynni solar, biomas a thrydan dŵr, tyfu cnydau ac ail-hadu wedi chwarae rôl hollbwysig mewn cynnal effeithlonrwydd ac wedi cyfrannu at broffidioldeb.

Ffermwr Tir Glas y Flwyddyn
Cymdeithas Tir Glas Prydain 2005

Y MENTOR – CRYNODEB

Arferai Glyn weithio fel hyfforddwr lechyd a Diogelwch ac mae ganddo dros 30 mlynedd o brofiad o weithio mewn amaethyddiaeth a thrin amrywiaeth o beiriannau fferm mewn modd effeithiol a diogel. Mae'n rhedeg daliad 160 erw, hanner ohono'n dir rhent, gyda 250 o famogiaid llawr gwlad a 250 o famogiaid ucheldir a gaiff eu cadw yn bennaf ar gyfer cynhyrchu cig a chyflenwi stoc. Mae hefyd yn rhedeg busnes contractio amaethyddol gyda gwasanaethau allweddol yn cynnwys cynhaefu byrnau crwn a thorri gwrychoedd.

Mae gan Glyn wybodaeth lechyd a Diogelwch eang, yn enwedig o ran gyrru tractor a gyrru tractor ar lethrau, ac mae'n awyddus i rannu ei wybodaeth gyda busnesau fferm eraill mewn ymdrech i wneud ffermydd Cymru'n fwy diogel a lleihau perygl damweiniau.

Y MENTOR – CRYNODEB

Ym 1993, prynodd Glyn bum buwch Limousin pedigri ar gyfer ei fferm biff a defaid 500 erw. Erbyn heddiw, mae wedi datblygu buches o 60 o wartheg sugno Limousin pedigri a'r stoc ifanc yn ogystal â diadell o 500 o famogiaid Cymreig yn bennaf.

Bwriad Glyn yw monitro cynnydd pob prosiect fferm yn barhaus trwy ei raglen gyfrifiadurol bridio pwrpasol ei hun ac addasu i sefyllfaoedd wrth iddynt godi. Trwy ddeall yr hyn y mae'r farchnad ei angen, mae'n rhedeg busnes proffidiol sy'n ymateb i ofynion y prynwr. Mae Glyn yn credu'n gryf mewn bod yn angerddol am yr hyn yr ydych yn ei wneud, ond bod angen cynhyrchu'r hyn y mae'r farchnad yn chwilio amdano, ac nid yr hyn yr ydych chi'n meddwl ei fod yn chwilio amdano.

Y MENTOR – CRYNODEB

Ar ôl graddio, dychwelodd Gwydion i weithio ar y fferm deuluol a oedd yn cadw 400 o ddefaid a 50 o wartheg godro ar yr adeg honno. Er mwyn sicrhau'r allbwn gorau, fe leihaodd nifer y defaid a chynyddu'r fuches laeth, gan greu system gynhyrchu llaeth o laswellt isel o ran costau. Mae gan y fferm 240 erw bellach 160 o wartheg sy'n lloea yn y gwanwyn ar system bori estynedig yn ogystal â 100 o stoc ifanc.

Mae gan Gwydion hefyd gyfran o 50% mewn menter ar y cyd sydd wedi trawsnewid fferm ddefaid leol yn fferm laeth 450 buwch.



HAYDN EVANS
Parceithin Farm (Sir Gâr)



HELEN BENNETT
Upper Hall (Sir Drefaldwyn)



HUW JONES
Prysgau Ganol (Meirionnydd)



IOAN GWILYM ROBERTS
Tryfil Isaf (Ynys Môn)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Magu stoc ifanc, Cynllunio olyniaeth

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Arallgyfeirio, Cynhyrchu wyau

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Datblygu busnes, Rheoli busnes coedwigaeth

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Bridiau brodorol, Geneteg, Iechyd anifeiliaid a hwsmonaeth, Maetheg

Y MENTOR – CRYNODEB

Prynodd Haydn, sy'n gyn-reolwr banc, ei fferm 20 mlynedd yn ôl. Mae ef a'i fab, sydd bellach yn bennaeth y daliad, yn ffermio fferm laeth organig 240 erw wedi'i rannu'n ddwy uned – 84 erw yn berchen iddynt a 156 erw ar rent. Mae un fferm yn gartref i'r fuches odro, ac mae'r llall yn cael ei defnyddio fel uned magu stoc ifanc. Mae ganddo 100 o wartheg Friesian Prydeinig ynghyd â 70 o stoc ifanc a dau darw stoc – Friesian Prydeinig a Henffordd. Maent wedi buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, gan gynnwys tyrbîn gwynt. Mae Haydn yn credu bod brwdfrydedd yn hanfodol, ond nad yw'n gwarantu llwyddiant. Mae'n argymhell y dylai fod gennych gynllun busnes ar gyfer yr hyn yr ydych eisiau ei gyflawni a gofyn i rywun ei herio.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Helen wedi bod yn rhan o'r busnes presennol ers dros 25 mlynedd. Mae'r fferm yn ymestyn dros 580 erw, yn ogystal â 300 erw ychwanegol o dir ar rent a thir wedi'i ffermio ar gontract, sy'n cael ei reoli'n organig. Mae ganddynt 120 o wartheg llaeth Holstein Friesian ynghyd â 200 o stoc ifanc, yn ogystal â 600 o famogiaid Llŷn pedigri a 25 o famogiaid Texel. Mae'r fferm wedi gosod systemau ynni adnewyddadwy ac wedi buddsoddi mewn menter wyau maes gyda 64,000 o ieir. Mae gan Helen ddeng mlynedd o brofiad mewn prosiectau arallgyfeirio megis tyfu a chynhyrchu llysiau organig, Cynllun Creu Coetir Glastir, solar PV, biomas ac atgyweirio tu fferm a bwthyn gwyliau.

Y MENTOR – CRYNODEB

Dechreuodd Huw ar fferm deuluol fechan ac yna gweithiodd ar ffermydd eraill yn ei ardal, nes iddo gymryd yr awenau ar fferm ucheldir 70 erw yn eiddo i'r cyngor yn 2002. Mae wedi ehangu'r busnes yn raddol i fod yn fusnes coedwigaeth llwyddiannus ac mae ganddo ddau dîm o weithwyr yn torri coed ar ardaloedd gwastad yn ogystal â choed ar lethrau gan ddefnyddio winsh. Mae hefyd yn cadw 150 o famogiaid Miwl Cymreig a phedair o fuchod sugno Duon Cymreig pur gyda lloeau sy'n cael eu gwerthu'n 18 mis yn y farchnad leol. Mae Huw yn credu bod sicrhau bod galw cryf a m eich cynnyrch yn allweddol er mwyn llwyddo mewn busnes. Mae hefyd yn credu ei bod yn hanfodol i gyfaddef unrhyw gymeriadau ac i ddysgu ohonynt.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Ioan yn ffermio daliad 160 erw wedi'i rannu'n ddwy uned ac mae ganddo dros 40 mlynedd o brofiad o weithio ar y fferm deuluol. Ar ôl 14 mlynedd yn gweithio fel athro, dychwelodd adref i ffermio gan ddilyn ei freuddwyd o weithio gyda'r gwartheg Cymreig Duon sy'n frodorol i Gymru. Mae ganddo oddeutu 130 o wartheg Duon Cymreig pedigri a chydabyddir ei wybodaeth a phrofiad o'r brid trwy ei waith gyda nifer o gymdeithasau arbenigol. Mae Ioan yn credu mai un o nodweddion gorau'r Gwartheg Duon Cymreig yw eu gallu i ymdopi â'r tirwedd a'r amodau tywydd a geir yma yng Nghymru. Mae ganddo ddiddordeb mewn geneteg hefyd ac yn credu y dylai ffermwyr ddefnyddio'r eneteg gorau posib bob amser.



IOAN WILLIAMS
Brynsegur (Sir Gâr)



Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Rheoliadau, Ynni Adnewyddadwy



JAMES COWAN
Blaencwmpridd (Ceredigion)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Gwella geneteg, Pesgi teirw a heffrod dan 24 mis



JAMES POWELL
Dolygarn (Sir Frycheiniog)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Defaid, Gwartheg, Moch



JAMES RAW
Tyllwyd (Ceredigion)



Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Ynni adnewyddadwy (Dŵr) Arallgyfeirio

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae fferm 230 erw loan yn cynnwys 70 erw o goetir llydanddail a 30 erw o dir yn SoDdGA. Gosodir y fferm i'w phori gan wartheg yn yr haf a defaid tac yn y gaeaf. Tyfir chwe erw o gnydau gwraidd yn flynyddol, sy'n cael eu defnyddio fel cuddfan i'r helfa a redir ar y fferm, ac yna gwerthir y cnwd ar ei draed i ffermwr defaid i besgi ŵyn stôr.

Mae gan loan wybodaeth helaeth am y ffactorau sy'n effeithio ar amaeth-amgylchedd yng Nghymru, ac mae wedi darparu hyfforddiant a throsglwyddo gwybodaeth i ffermwyr er mwyn datblygu mentrau ffermio proffidiol. Mae hefyd wedi gweithio gyda ffermwyr i wella eu rheolaeth pridd a maethynnau, gan arwain at arbedion ariannol sylweddol.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae James yn gyn ffermwr arddangos Cyswllt Ffermio, ac mae'r fferm ucheldir deuluol yn cynnwys 255 erw sy'n berchen iddynt a 180 erw o dir ar rent. Mae'r da byw yn cynnwys 300 o wartheg biff a 600 miwl Texel a miwl Cymreig. Tyfir rhwng 30 a 40 erw o haidd a cheirch fel bwyd anifeiliaid, ynghyd â swêj ar gyfer y defaid.

Mae James wedi gwella geneteg ei fuches yn sylweddol, ac wedi gwneud y fferm yn fwy hunangynhaliol trwy gynhyrchu mwy o fwyd ar y fferm. Mae wedi arwain nifer o grwpiau trafod ac wedi cynnal diwrnodau trosglwyddo gwybodaeth yn ymwneud â chynhyrchu biff, yn trafod marchnata, iechyd, bridio a sicrhau'r maeth cywir.

Ail yng nghystadleuaeth Ffermwr Biff y flwyddyn y Farmers Weekly 2013

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae James yn ffermio biff, defaid a moch ar ei fferm ucheldir 450 erw ger Llandrindod. Mae'n cadw diadell o 1,000 famogiaid ac yn rhedeg system bori cylchdro mewnbwn isel sy'n canolbwyntio ar eneteg gynhyrchol, ansawdd y borfa a chyn lleied â phosibl o wrthfotigau. Mae hefyd yn cadw 1,000 o foch ar system besgi ar gontract ac yn magu 240 o loeau ar gontract bob blwyddyn.

Mae gan James agwedd ragweithiol tuag at ffermio ac mae'n sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw effaith ar yr amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys ynni adnewyddadwy, peidio â thrin tir, cynydu sy'n tyfu'n gyflym a gwyndwn yn cynnwys gwahanol rywogaethau. Bob amser â diddordeb mewn cyfleoedd newydd i ennill incwm ychwanegol, arallgyfeiriodd James ac mae nawr yn rhedeg llety gwyliau.

Mae gan James gysylltiad cadarn â mudiadau gwledig i bobl ifanc ac mae'n frwd dros sicrhau dyfodol cynaliadwy mewn amaethyddiaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae James yn rhannu ei amser rhwng tri daliad, Tyllwyd, Blaencwm a Nanteos, cymysgedd o ffermydd mynydd a llawr gwlad. Mae gan James 900 o famogiaid Mynydd Cymreig ond hefyd yn cadw buches o 35 o wartheg Limousin, yn gwerthu gwartheg stôr. Yn ychwanegol, mae ganddo dau gynllun trydan dŵr 100 kW, 20ha o goetir lle mae'n gwerthu ychydig fel coed tân, maes gwersylla bychain ar y fferm, mae'n gosod eiddo ar sail tymor byr ac yn tyfu 5-10ha o haidd i'w gombeinio yn flynyddol. Roedd James yn enillydd y teitl "Most Carbon Neutral Farm 2016" yng ngwobrau cenedlaethol Energy Now UK.

Gydag ugain mlynedd o brofiad, mae James wedi datblygu ei fusnes trwy addasu'r systemau ffermio yn unol â dylanwadau allanol ac mae'n credu ei bod hi'n hanfodol adnabod a defnyddio datblygiadau posibl a er mwyn i fusnesau ffynnu.



JENNY DAVIES
Llwynhelyg (Ceredigion)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Arallgyfeirio fferm Gwerthu o giât y fferm



JOHN BOOTH
Rhual Dairy (Sir y Fflint)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Ffermio cyfran Isadeiledd fferm



JIM BOWEN
Clynfyw (Sir Benfro)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Ffermio gofal, Cynllunio busnes,
Adfywio cymunedol, Rhwydweithio



JOHN DAVIES
Cilrhue (Sir Benfro)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Magu lloi, Pori cylchdro, Defnyddio EID

Y MENTOR – CRYNODEB

Ynghyd â'i gŵr, Teifi (sydd hefyd yn fentor), mae Jenny wedi arallgyfeirio o ffermio llaeth i sefydlu un o siopau fferm gyntaf Cymru. Mae Jenny bob amser wedi pwysleisio ar y gallu i gadw cynnyrch lleol ac wedi'i dyfu gartref, ac mae wedi ennill nifer o wobrau ym maes adwerthu, cynaliadwyedd, prynu'n lleol a'r fenter arallgyfeirio fferm orau.

Mae Jenny yn hyderus gyda chyfrifon a chofnodion fferm, TAW a chyfrifo costau, rhagolygon proffidioldeb ar y fferm ac yn enwedig gyda'r busnes siop fferm. Gall Jenny roi cyngor ynglŷn â sut i fodloni safonau masnach a gofynion ieched yr amgylchedd.

Yn ogystal â'r siop fferm, mae Jenny a Teifi yn ffermio 100 o erwau yn cadw buches o 50-60 o wartheg ac yn tyfu llysiau a pherlysiau.

Y MENTOR – CRYNODEB

Yn ogystal â'i rôl fel rheolwr cynorthwyol ar uned laeth fawr, mae John yn rhedeg menter ffermio llaeth cyfran gyda 320 o wartheg a 160 o stoc ifanc, ar system loea trwy'r flwyddyn gyda chynnyrch cyfartalog o 8,800 litr.

Mae John wedi uwchraddio ei storfa slyri'n ddiweddar er mwyn cydymffurfio â rheoliadau NVZ, ynghyd â datblygu isadeiledd y fferm i allu cynnal y fuches mwy o faint. Mae'n ymwneud â nifer o grwpiau llaeth lleol.

Mae John yn credu mewn gonestrwydd a'r gallu i wrando, dysgu ac ymateb yn hyderus er mwyn llwyddo mewn busnes.

Y MENTOR – CRYNODEB

Ar hyn o bryd mae Jim yn gyfarwyddwr ar Clynfyw CIC, fferm ofal yng ngogledd Sir Benfro a sefydlwyd yn 2011. Yn Clynfyw maent yn gweithredu prosiectau cefn gwlad amrywiol a blaengar i bobl anabl a bregus, gan eu hysbrydoli a'u cefnogi i ymestyn eu potensial.


Arferai Jim fod yn ffermwr organig ac mae wedi rhedeg cyfres o brosiectau cyfrifol yn gymdeithasol ar ffermydd gan gynnwys gwyliau hygrych a phriodasau 'gwyrdd' a chynadleddau, mae Jim yn dal i ddefnyddio'r athroniaeth organig ym mhob agwedd o'r fenter. Pwysleisir arferion sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd hefyd gyda'r holl aelodau o staff yn cael hyfforddiant addas i gynyddu eu hymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol.

Fel rhan o'i waith yn Clynfyw, mae wedi helpu i sefydlu dros 20 o ficro-fentrau a chynlluniau fel gwasanaeth gwasgu afalau cymunedol, gwneud siarcol a gwasanaeth garddio, sy'n golygu y gall helpu pobl eraill i ddatblygu micro-fentrau a chynlluniau hyfyw yn economaidd.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae John yn ffermio gyda'i frawd ar y fferm deuluol 220 erw. Ers i John ymuno â'r busnes, maent wedi newid o system biff, defaid a llaeth traddodiadol i odro'n unig ac erbyn hyn magu biff yn unig. Mae eu buches o 250 o wartheg biff yn cynnwys gwartheg a bustych Friesian a Hereford croes, Friesian ac Angus croes a heffrod Fresian. Mae'r fferm yn defnyddio system bori cylchdro Seland Newydd a thyfu'n gyflym sy'n seiliedig ar laswellt. Maent hefyd yn defnyddio dangosydd pwysu EID, gyda'r canlyniadau'n dylanwadu porthiant a grwpio. Cyflwynodd John ynni adnewyddadwy i'r busnes gyda system solar 100kw a bwyler biomas 500kw.

Mae gan John hefyd swydd rhan amser yn gweithio fel gwerthwr a rheolwr datblygu busnes gyda chwmni nwyddau amaethyddol blaenllaw.



JOHN YEOMANS
Llwyn y Brain (Sir Drefaldwyn)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Cofnodi perfformiad Meincnodi



KEITH WILLIAMS
Hendy (Maesyfed)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Cynhyrchu defaid ar gost isel Pori Cylchdro



KERI DAVIES
Glwydcaenewydd (Brycheiniog)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Twristiaeth, Rheolaeth glaswelltir, Meincnodi, Contractio amaethyddol, Olyniaeth



LILWEN JOYNSON
Y Felin Fach (Sir Benfro)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Datblygiad personol, Hyfforddi perfformiad

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae fferm John yn ymestyn dros 284 erw, gyda 231 yn berchen iddo a 53 erw'n cael eu rhentu. Mae ganddo fuches sugno gaeedig o 70-75 o wartheg Limousin pedigri a gwartheg croes a 12-19 heffer, sy'n lloea'n ddyflwydd oed. Mae ganddo hefyd ddiadell gaeedig o 500 o famogiaid Beulah a 160 o ŵyn benyw Beulah, sydd bellach yn sganio oddeutu 160%.

Mae'r fferm yn cynnwys ardal fechan o goetir ac mae wedi buddsoddi mewn ynni adnewyddol gyda phaneli solar.

Mae John yn gredwr cryf mewn rhannu problemau gan fod rhywun bob amser wedi cael profiad o'r un pethau.

Ail yng nghystadleuaeth Arloeswr Defaid y Flwyddyn, Gwobrau Ffermio Prydain 2016

Ffermwr Defaid y flwyddyn y Farmers Weekly 2018

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae fferm Keith yn ymestyn dros 360 erw, yn ogystal â 20 erw ar rent. Mae'n cadw 880 o famogiaid, gan gynnwys 60 o ddefaid Texel wedi'u recordio o ran perfformiad, ynghyd â 240 o ŵyn benyw. Mae ganddo hefyd fuches sugno gaeedig o Wartheg Duon Cymreig pedigri. Ers cymryd yr awennau ar y fferm deuluol, mae wedi gweithio'n raddol i ddatblygu'r busnes trwy wella rheolaeth pridd a glaswelltir a chyflwyno stoc gydag EBV uchel.

Bu Keith yn cynorthwyo i ddatblygu templed Elw Fferm Cymharol Cyswllt Ffermio er mwyn cynorthwyo ffermwyr i ddeall eu busnes yn well.

Ffermwr Defaid y Flwyddyn y Farmers Weekly 2013

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Keri'n ffermio ar ddaliad 130 erw ac yn rhentu 150 erw ychwanegol, sy'n cael ei reoli'n organig. Mae'r fenter ffermio yn cynnwys gwartheg bridio a stôr, 550 o famogiaid Texel a Phenddu Miwl croes a 7 erw o rawnfydd wedi'u hau yn y gaeaf. Pum mlynedd yn ôl, dechreuodd Keri a'i wraig Julie arallgyfeirio eu fferm biff a defaid gan sefydlu busnes twristiaeth sydd wedi ehangu'n sylweddol erbyn hyn. Dechreuodd y ddau gyda dau dŷ coed Americanaidd cyn mynd ymlaen i brynu fferm gyfagos a thafarn lleol. Mae eu rhaglen ffurfiol o ddatblygu eiddo wedi parhau gyda llety 5* mewn cymysgedd o adeiladau newydd ac wedi'u hadnewyddu yn ogystal â phodïau glampio. Mae'r busnes wedi buddsoddi £150,000 mewn ynni adnewyddadwy dros y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys toi solar 30kw a thyllau turio.

Mae Keri yn awyddus i annog ffermwyr entrepreneuriaid eraill i ystyried ffrydiau newydd o incwm a all eu helpu i ddatblygu busnes fferm proffidiol a chynaliadwy.

Y MENTOR – CRYNODEB

Cafodd Lilwen ei magu ar fferm laeth 64 erw ac mae ganddi brofiad eang ac unigryw yn y diwydiant amaeth yn cynnwys arallgyfeirio ar fferm, datblygu busnes a sut i dyfu busnes neu weithredu newidiadau effeithiol er mwyn creu busnes mwy effeithlon a syml. Mae Lilwen yn medru trawsnewid cyfathrebu a chadw pethau'n syml yn ogystal â chefnogi datblygu arweinyddiaeth a chydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Mae ganddi hefyd sgiliau datrys problemau ardderchog ac mae'n awyddus i helpu unigolion ganfod y canlyniad gorau ar eu cyfer nhw.

Mae Lilwen hefyd yn gweithio fel arweinydd Agrisgôp ac mae'n angerddol am gadw deialog mewnol cadarnhaol er mwyn sicrhau bod lleisiau holl aelodau'r busnes yn cael eu clywed a'u grymuso.



LOWRI REES-ROBERTS
Dolhendre Isa (Meirionnydd)



LLŶR HUGHES
Fferm Gyd (Ynys Môn)



LLŶR JONES
Abercefel (Ceredigion)



MALCOM THOMAS
Ty'n y Caeau (Sir y Fflint)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Arallgyfeirio, Cynlluniau ynni dŵr ar fferm

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Geneteg, Bwyd a dyfir gartref

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Safe working procedures, carrying out and preparing for audits and inspections, providing training on a variety of health, safety and environmental issues

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:
Prosesu a gwerthu tyrcwn wedi'u magu ar fferm, Adwerthu a gwerthu uniongyrchol, Marchnata, Cynllunio Rheoli Maetholion

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Lowri'n byw gyda'i theulu ifanc ar fferm deuluol 300 erw lle maent yn ffermio 300 o famogiaid mynydd Cymreig a 60 o wartheg Duon Cymreig. Mae Lowri wedi bod yn gyfrifol am holl elfennau rheolaethol a gweinyddol busnes peirianeg sifil ei theulu ers dros 20 mlynedd, a gyda menter arallgyfeirio'r cwmni sy'n ymwneud â chynlluniau ynni dŵr ar fferm, mae bellach yn arbenigo mewn lechyd a Diogelwch cwmnïau a ffermydd. Mae Lowri wedi cwblhau sawl cymhwyster lechyd a Diogelwch ac mae ganddi brofiad a gwybodaeth helaeth o ieuchyd a diogelwch cyffredinol, asesiadau risg a datganiadau dull. Mae gan Lowri ddealltwriaeth dda o'r sialensiau sy'n wynebu ffermwyr heddiw ac mae'n awyddus i helpu ffermwyr adnabod sefyllfaoedd peryglus ac awgrymu datrysiadau er mwyn gwneud ffermydd yng Nghymru'n llefydd mwy diogel i weithio.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae fferm deuluol Llŷr yn cynnwys 350 erw sy'n berchen iddynt a 100 erw ychwanegol ar rent. Mae'r tir yn agored iawn ac mae'r pridd yn bennaf yn glai lôm a brig siâl. Mae 10% o'r tir yn cael ei gnydio a'i ail-hadu bob blwyddyn ac mae'r anifeiliaid yn cael eu cadw dan do yn y Gaeaf. Mae'r da byw'n cynnwys 80 o wartheg sy'n lloea yn y gwanwyn a 30 sy'n lloea yn yr hydref, gan gynnwys 40 Limousin pedigri, a 650 o famogiaid Suffolk croes wedi'u troi at hyrddod Beltex croes Texel. Mae ansawdd y stoc a'r eneteg, ynghyd â rheolaeth porfa dda a gwneud y gorau o fwyd a dyfir gartref wedi bod yn rhai o'r prif feysydd y mae Llŷr wedi'u targedu ar gyfer gwelliant.

Ffermwr Tir Glas y Flwyddyn
Cymdeithas Tir Glas Prydain 2010

Y MENTOR – CRYNODEB

Llŷr was raised on a beef and sheep family farm near Lampeter. In 2016, Llŷr took over a farm near Llandysul with his wife and three children. The farm comprises of up to 150 cattle and a flock of 200 ewes. All cattle are sold as stores through local markets whilst the lambs are taken to Dunbia. Llŷr currently works as a Health, Safety & Environment Advisor and also runs a consultancy business servicing all business-related sectors including agricultural businesses. With 13 years' experience in health & safety management, Llŷr can provide impartial but constructive feedback and is eager to encourage Welsh farms to achieve safer working environments.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Malcolm yn rhedeg fferm 150 erw mewn ardal Parthau Perygl Nitradau (NVZ) yn cynnwys 70 erw o gnydau cyfunadwy. Ar hyn o bryd, mae'n magu dros 2,000 o dyrcwn bob blwyddyn mewn adeiladau fferm traddodiadol ac mae ganddo dros 40 mlynedd o brofiad yn y maes. Gan fod y fenter dyrcwn yn gweithredu'n dymhorol, mae sgiliau trefnu a rheoli Malcolm yn allweddol i lwyddiant y busnes. Mae hefyd yn cadw 150 o famogiaid Llŷn croes ac yn prynu, magu a phesgi oddeutu 70 o wartheg llaeth croes trwy gydol y flwyddyn. Mae Malcolm yn rhoi pwyslais mawr ar ieuchyd anifeiliaid ac yn cadw llygad am arwyddion o afiechyd neu salwch bob amser. Mae'n credu bod cael cynllun gweithredu mewn lle bob amser yn allweddol er mwyn delio ag unrhyw broblemau a all godi.



MARK DAVIES
The Meadows (Sir Drefaldwyn)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Datblygu pobl a busnesau proffidiol



MATT SWARBICK
Henbant (Llŷn ac Eryri)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Llaeth Micro, Paramaethu, Rheolaeth Holistaidd, Amaethgoedwigaeth, Twristiaeth



MEIRION JONES
Tŷ Llwyd (Sir Gâr)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Ffermio cyfran, ŵyna'n gynnar



NEIL STODDART
Nantgwynau (Sir Gâr)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Rheoli tir, Prosiectau amgylcheddol

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Mark yn rhedeg fferm llawr gwlad 250 erw sy'n cynnwys 200 erw o dir â, 16,000 o ieir buarth a dwy uned solar fach. Ar ôl dychwelyd adref o'r Brifysgol, cafodd Mark gyfrifoldeb llwyr o ran cyllid a rheolaeth y fferm. Defnyddiodd ei flaengarwch i drawsnewid busnes teuluol mewn traferth trwy well rheolaeth, cadw cofnodion ac arallgyfeirio. Mae gan Mark dros 15 mlynedd o brofiad yn y sector ddofednod a sefydlodd ei fenter ddofednod heb lawer o wybodaeth ac arweiniad felly roedd rhaid iddo ddysgu trwy wneud. Bu'n llwyddiannus gan sefydlu un o'r unedau wyau maes masnachol cyntaf yn cynhyrchu wyau lliw arbenigol.

Mae Mark hefyd yn gweithio fel arweinydd Agrisgôp ac mae ganddo nifer o rwydweithiau amrywiol y mae wedi'u hadeiladu dros y blynyddoedd. Mae Mark yn credu bod ymchwil yn allweddol ar gyfer llwyddiant mewn busnes ac mae'n awyddus i helpu unigolion i ddatblygu eu hunain a'u busnesau.

Y MENTOR – CRYNODEB

Yn gyn-gynhyrchydd teledu ac yn newydd-ddyfodiad i ffermio, dechreuodd Matt ffermio yn 2012. Yn wreiddiol o Swydd Efrog, syrthiodd Matt mewn cariad â Chymru tra'n astudio a gweithio yma.

Mae Matt yn angerddol am fanteision ffermio ar raddfa fach yn ecolegol ac mae'n defnyddio paramaethu a rheolaeth holistaidd fel dulliau dylunio ar ei fferm 80 erw. Er mai dim ond ers saith mlynedd y mae wedi bod yn gwneud hyn, mae'r fferm yn dod yn enghraifft gadarn o ddull ecolegol o ffermio ar raddfa fach. Trwy weithio yn barhaus i wneud y fferm yn fwy gwydn a chynhyrchiol gan hefyd ganolbwyntio ar fod yn adfywiol, gall Matt roi cyfarwyddyd i ffermwyr sydd am wneud eu busnesau'n fwy cynaliadwy a chynhyrchiol.

Wedi arallgyfeirio, daw'r incwm yn bennaf o dwristiaeth; godro micro; defaid; coedwigaeth; wyau a garddwriaeth masnachol, y cyfan yn cael eu gwneud ar raddfa fach ond proffidiol a chynhyrchiol. Cred Matt mai'r amrywiaeth sy'n galluogi iddo greu incwm o fferm fach.

Y MENTOR – CRYNODEB

O 2015-2017, bu Meirion yn rhan o gytundeb ffermio cyfran llwyddiannus. Ers i'w bartner busnes ifanc symud ymlaen, mae bellach yn rhan o fenter ar y cyd newydd a gafodd ei sefydlu ym mis Tachwedd 2017. Gyda'i bartner busnes, mae gan y daliad 700 erw 1,100 o famogiaid gyda 200 o anifeiliaid cyfnewid a 200 o wartheg stôr a brynwyd i mewn yn 10-12 mis oed a'u gwerthu'n 20 mis oed. Maent hefyd yn magu 50 o heffrod Friesian ar gontract ac wedi buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.

Mae rhaglen o welliannau sylweddol wedi cymryd lle ar y fferm o ran draeniad ac adferiad tir, ffensio a chodi adeiladau i wella allbwn cyffredinol a lleihau costau mewnbyn.

**Partneriaeth Ffermio'r Flwyddyn 2016,
Gwobrau Ffermio Prydeinig**

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Neil yn ffermio daliad 50 erw. Mae ganddo 150 o famogiaid croes a phedigri North Country Cheviot ac yn magu 40 wartheg sugno ar gontract dros y gaeaf. Gyda thros 30 mlynedd o brofiad mewn gwaith coedwigaeth, mae ei wybodaeth yn cynnwys diogelwch coed, mynediad i'r cyhoedd, cytundebau cymunedol, gweithio mewn partneriaeth, yn ogystal â phlannu, cynnal a chadw coed a'u cynaeafu.

Mae'r prosiectau amgylcheddol yn cynnwys adfer mawn ar raddfa fawr, adfer cynefin coetir hynafol naturiol, a rheoli safleoedd sydd wedi eu dynodi. Mae ei waith ar yr ochr hamdden yn cynnwys rheoli mynediad cyhoeddus a thir mynediad agored, darparu llwybrau i feiciau mynydd a chanolfan ymwelwyr.



PETER WILLIAMS
Great House Farm (Sir Fynwy)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Hwsmonaeth anifeiliaid, Arallgyfeirio



PHIL MORGAN
Plas y Wenallt (Ceredigion)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Rheoli coetir, Coedwigaeth Gorchudd Parhaol, Plannu o'r newydd



PHILLIP JONES
Lan Farm (Sir Gâr)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Systemau mewnbwn isel, cost isel, Gwella geneteg



RHIDIAN GLYN
Rhiwgriafol (Sir Drefaldwyn)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Pori Cylchdro, Magu Heffrod ar Gontract, Newydd-ddyfodiaid, Cynllunio Busnes Fferm

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Peter yn gyn ffermwr arddangos Cyswllt Ffermio, ac mae'n berchen ar 170 erw o dir ac yn rhentu 100 erw ychwanegol. Mae'n cadw 30 o wartheg sugno croes a 400 o famogiaid.

Mae hefyd wedi cyflwyno ambell opsiwn arallgyfeirio gan gynnwys gwersylla a chynnal gwyliau bychain. Mae'r fferm yn cynnwys 20 erw o goetir ac mae grawn a chnydau gwyrdd yn cael eu tyfu fel bwyd anifeiliaid.

Mae Peter yn credu'n gryf bod angen cymryd seibiant i gamu'n ôl o'r busnes er mwyn adnabod elfennau o'r fenter sydd ddim yn gweithio.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Phil yn berchen 27 erw o goetir ger Aberystwyth mewn partneriaeth â chyd-berchennog arall yn ogystal â phrydlesu 136 erw o goetir ger Cwm Rheidol. Mae'r ddwy goedwig yn gymysg o ran rhywogaethau, yn gonwydd a llydanddail ac maent yn Blanhigfeydd a Safleoedd Coetir Hynafol sy'n cael eu hadfer.

Mae ganddo dros 30 mlynedd o brofiad yn y diwydiannau coed a choedwigaeth yng Nghymru yn ogystal ag yn datblygu marchnadoedd newydd ar gyfer tanwydd coed a charbon. Mae cyfran helaeth o'i waith yn ymwneud yn uniongyrchol â ffermwyr, yn plannu coetir newydd ac yn rheoli'r coetir sy'n bodoli ar ffermydd yng Nghymru.

Mae Phil yn deall cymhlethdodau rheoli coetiroedd llai a'r angen am elw oddi wrth goetir ar ffermydd. Mae'n credu gall cyfuniad o weithio cost-effeithiol, peiriannau priodol, y farchnad garbon newydd, taliadau am nwyddau cyhoeddus a gwasanaethau ecosystemau wneud coetiroedd yn broffidiol ac ychwanegu at werth ffermydd.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Phillip yn gyn ffermwr arddangos Cyswllt Ffermio, ac mae ganddo fferm ucheldir sy'n ymestyn dros 400 erw, gan gynnwys 200 erw ar rent.

Mae wedi bod yn ffermio'n organig ers 2006, gyda 100 o wartheg sugno organig a stoc ifanc, croesiadau Limousin yn bennaf, gyda chyfanswm o oddeutu 200 o dda byw. Mae wedi gwella geneteg trwy ddefnyddio gwell teirw a ffrwythloniad artiffisial. Cymerir defaid tac dros y gaeaf.

Mae rheolaeth glaswelltir Phillip wedi gwella'n sylweddol ac mae'r fferm yn hunangynhaliol o ran protein trwy wndwn meillion coch. Mae wedi gallu arbed arian ar ddwysfwyd trwy dargedu'r ail-hadu.

**Ffermwr Biff y flwyddyn y
Farmers Weekly 2013**

Y MENTOR – CRYNODEB

Cychwynnodd Rhidian ei yrfa mewn amaethyddiaeth fel cynrychiolydd gwerthu bwydydd anifeiliaid. Yn 2008, cychwynnodd Rhidian ffermio trwy gael naw erw o dir pori gwael ar rent i 15 o ddefaid mynydd Cymreig, ac yna cymerodd dir pori a ddaeth ar gael yn yr ardal leol. Yn 2014, llwyddodd i sicrhau tenantiaeth fusnes fferm 10 mlynedd ar fferm fynydd 530 erw a hefyd mae ganddo drwydded bori 11 mis ar 160 erw ger y prif ddaliad. Erbyn hyn mae'r ddiadell wedi tyfu i 900 o famogiaid a 250 o stoc cyfnewid. Yn 2014 cychwynnodd Rhidian fenter fagu heffrod hefyd, gan gael grwpiau o 110 o loeau a'u magu am 16 mis, sy'n golygu bod 220 o heffrod yn pori cylchdro dros gyfnod yr haf.

Mae Rhidian yn rhoi pwyslais mawr ar wella effeithlonrwydd yn ei fusnes, gan ddefnyddio cofnodi perfformiad i gael y cynhyrchiant mwyaf gan ei ddiadell a phori cylchdro i helpu i wella proffidioldeb a chynhyrchiant ei dir.

**Enillydd Medal Aur y Wobr i Newydd-ddyfodiaid:
Gwobrau Ffermio Prydain, Against All Odds 2018**



RHYS EDWARDS
Hendre Ifan Goch Farm
(Pen-y-bont ar Ogwr)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Geneteg, Arallgyfeirio, Twristiaeth, EID, Ynni adnewyddadwy, Meincodi, Arbedion ariannol



RHYS WILLIAMS
Trygarn (Llŷn ac Eryri)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Ffermio cyfran



RICHARD GIBB
Church Cottage (Morgannwg)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Silwair glaswellt aml-doriad, Rheoli glaswelltir a phorthiant



RICHARD ISAAC
Mynachdu Farm (Rhondda Cynon Taf)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Defnyddio glaswellt yn effeithiol i gynyddu incwm
Bridio anifeiliaid pedigri

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Rhys yn ffermio'n llawn amser gyda'i dad ar y fferm deuluol 250 erw lle maent yn rhedeg menter ddefaid cynhyrchiol iawn yn cynnwys 550 o famogiaid a 150 o ŵyn benyw. Maent yn defnyddio hyrddod gydag EBV uchel a hyrddod Aberfield mamol er mwyn cyflawni'r eneteg orau. Maent hefyd yn canolbwyntio ar gostau cynhyrchu, iechyd anifeiliaid a chynnydd pwysau byw (DLWG). Cyflwynodd Rhys EID, a gaiff ei ddefnyddio i gofnodi cynnydd pwysau a data ŵyna pob oen a mamog. Dywed Rhys fod defnyddio EID wedi newid y ffordd y mae'r teulu'n ffermio er gwell. Mae'r ddau hefyd yn defnyddio system bori cylchdro.

Gyda diddordeb brwd mewn cyflwyno arloesedd i'r busnes, cyflwynodd Rhys ynni adnewyddadwy gan osod generadur hydro a phwmp gwres ffynhonnell daear sy'n cyflenwi holl egni'r fferm a'r ffermdy, penderfyniad sydd wedi arwain at arbedion sylweddol o fewn y busnes. Mae'r busnes hefyd wedi arallgyfeirio i dwristiaeth gan sefydlu menter eang sy'n cynnwys maes carafanau teithiol gyda lle ar gyfer 60 o garafannau, llynnoedd pysgota a lleoliad ar gyfer priodasau.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Rhys yn berchen ar 200 erw ac yn rhentu 1,400 erw ychwanegol fel rhan o fenter ffermio llaeth cyfran. Mae wedi datblygu busnes sydd bellach yn godro 1,150 o wartheg ar system cost isel sy'n lloea yn y gwanwyn, ac mae'n berchen ar 910 o wartheg ei hun. Mae Rhys yn cydnabod bod yr ychydig flynyddoedd a dreuliodd yn Seland Newydd wedi cael dylanwad helaeth ar ei yrfa ffermio a'i fywyd personol. Mae bob amser yn agored i syniadau newydd a thrwy ei waith fel cyn ffermwr arddangos Cyswllt Ffermio, mae wedi gweithredu rhaglen i reoli clefyd Johnes.

Gyda busnes mawr i'w redeg, mae Rhys yn dibynnu'n helaeth ar sgiliau'r tîm o'i gwmpas. Mae'n teimlo bod sgiliau cyfathrebu felly'n hanfodol ac yn credu bod rhywbeth i'w ddysgu gan eraill bob amser.

Y MENTOR – CRYNODEB

Gyda bron 50 mlynedd o brofiad mewn amryw o ddisgyblaethau amaethyddol, mae gan Richard y gallu a'r profiad angenrheidiol i fentora ffermwyr da byw sy'n cnoi cil i fod yn fwy effeithiol trwy reoli glaswelltir a phorthiant.

Mae ganddo brofiad ymarferol o weithio ar ffermydd biff, defaid, llaeth a thir â'r cymysg ond ei brif arbenigedd yw silwair aml-doriad, system sydd wedi cynyddu elw ar nifer o ffermydd da byw yn ôl Richard. Creda Richard fod deall manteision ac anfanteision y system a sut y mae'n effeithio eich fferm yn allweddol.

Yn fentor profiadol, mae gan Richard sgiliau rhyngpersonol ardderchog ac mae'n gwybod sut i wrando ar bryderon unigolion tra'n gwerthfawrogi pwysigrwydd cyfrinachedd.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae gan Richard fferm fynydd 370 erw ac mae'n rhentu 370 erw ychwanegol o dir ar lawr gwlad. Mae gan y busnes 50 o wartheg sugno Duon Cymreig pedigri, wedi'u pesgi ar laswellt a'u gwerthu fel anifeiliaid stôr yn 18-24 mis. Mae ganddo ddiadell o 700 o ddefaid Texel croes Cymreig a 600 o Ddefaid Mynydd De Cymru pur.

Er mwyn gwella gwyndonnydd glaswellt, mae'r busnes yn defnyddio rhywogaethau siwgr uchel, gan leihau'r angen ar gyfer bwyd a brynir i mewn. Mae Richard yn defnyddio EID i gynnal cofnodion manwl yn ogystal â chofnodi pwysau ŵyn i fonitro cynhyrchiant.

Mae wedi gosod tyrbinau gwynt a phaneli solar.



RICHARD RODERICK
Newton Farm (Brycheiniog)



RICHARD ROGERS
Cefndderwen (Ynys Môn)



RICHARD TUDOR
Glanystwyth (Ceredigion)



ROBB MERCHANT
Whitecastle Vineyard (Sir Fynwy)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Cnydau porthiant Cynlluniau amgylcheddol

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Mentrau ar y cyd, System bori cylchdro dwys

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Rheolaeth Glaswelltir, Cynhyrchu defaid

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Cynhyrchu gwin, Arallgyfeirio ar ffermydd ar raddfa fechan

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae gan Richard dros 30 mlynedd o brofiad o redeg busnes amaethyddol, ac mae ar hyn o bryd yn ffermwr arddangos ar ran Cyswllt Ffermio. Y prif ffocws ar gyfer ei ddiadell, sy'n cynnwys 1,050 o famogiaid magu Suffolk croes miwl a mamogiaid Aberfield a 260 o ŵyn benyw, yw gwella geneteg a lleihau costau trwy wneud y defnydd gorau posib o borthiant o ansawdd uchel. Gyda'i fuches o 270 o wartheg sugno, mae'n canolbwyntio ar wartheg Stabiliser i wella perfformiad mamol ac i besgi'r gwartheg biff o borthiant.

Mae'r teulu wedi datblygu bwthyn gwyliau a gosod eiddo ar sail hir dymor yn ogystal â chynlluniau ynni adnewyddadwy.

Ffermwr Defaid y Flwyddyn y Farmers Weekly 2015 a Chynhyrchwr Cig Oen y Flwyddyn Dalehead/Waitrose 2014

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Richard yn gyn ffermwr arddangos Cyswllt Ffermio, ac mae'n berchen ar 600 erw gyda 150 erw ychwanegol ar Denantiaeth Busnes Fferm. Mae ganddo 800 o famogiaid magu ac mae'n rhan o fenter laeth ar y cyd sydd â 360 o wartheg croes sy'n lloea yn y gwanwyn, ar system bori estynedig. Yn ogystal, mae 800 o wartheg Friesian gwryw yn cael eu magu fel lloeau ar system bori cylchdro dwys ac yn cael eu pesgi'n 24 mis oed. Prif ffocws Richard oedd ymchwilio i gostau a phroffidioldeb gwahanol systemau, gan arwain at fwy o bwyslais ar gynhyrchiant glaswelltir a phori cylchdro.

Ffermwr Tir Glas y Flwyddyn
Cymdeithas Tir Glas Prydain 2018

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Richard yn berchen ar 550 erw gyda 1,100 erw ychwanegol dan berchnogaeth rannol gyda'i frawd.

Penderfynodd werthu gwartheg sugno'r fferm rai blynedd yn ôl, gan ganolbwyntio yn hytrach ar gynyddu nifer y defaid i 1,850 o famogiaid a 200 o yn benyw. Trawsnewidodd Richard y fferm i system organig yn 2011, ond ers hynny mae wedi dychwelyd i ffermio'n gonfensiynol, ond mae wedi cadw nifer o egwyddorion ffermio organig gan gynnwys tyfu meillion coch ochr yn ochr â grawn a dyfir gartref.

Mae Richard wedi cyflogi dros 20 o fyfyrwyr yn ystod ei gyfnod yn rhedeg y fferm. Mae'n awyddus i helpu pobl ifanc ddatblygu a sicrhau dyfodol mewn amaeth.

Y MENTOR – CRYNODEB

Fel cadeirydd Cymdeithas Gwinllannau Cymru, Mae Robb yn frwdfrydig dros dyfu grawnwin o safon a chynhyrchu Gwin Cymreig o ansawdd uchel. Mae Robb yn gweithio gyda chefnogaeth ei wraig Nicola ar eu gwinllan 5 erw sydd erbyn hyn yn un o'r cynhyrchwyr gwin pennaf yng Nghymru. Mae ganddynt faes carafanau Lleoliad Ardystiedig, Adeilad 16eg Ganrif wedi'i adnewyddu a ddefnyddir ar gyfer digwyddiadau i grwpiau mawr a siop/ drws seler ar gyfer bwyd a blasu gwin.

Mae Robb yn cyflwyno sgysiau'n ymwneud â gwneud bywoliaeth o 10 erw neu lai ac arallgyfeirio. Mae Robb wedi trosglwyddo ei sgiliau i'w fywyd pob dydd ac mae'n bendant eu bod wedi bod yn hanfodol ar gyfer sefydlu Gwinllan White Castle Vineyard. Mae Robb yn awyddus i ddefnyddio ei sgiliau mewn modd adeiladol er mwyn gwella dealltwriaeth, hyder a pherfformiad.



ROBERT POWELL
Blaenbwch (Maesyfed)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Pori padogau, Tyfu cnydau gwraidd



ROMEO SARRA
Peepout Farm (Sir Benfro)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Priddoedd, Tatws, Garddwriaeth cae agored



SIÂN BUSHELL
Sir Benfro

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Olyniaeth



SION IFANS
Hen Dŷ Brynuchaf (Meirionnydd)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Monitro o wella perfformiad ei ddiadell gan ddefnyddio EID, Meincnodi KPIs defaid

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Robert yn gyn ffermwr arddangos Cyswllt Ffermio, ac mae'n pesgi Gwartheg Duon Cymreig ar 680 erw. Mae'n cadw 2,200 o famogiaid a 500 o ŵyn benyw – cymysgedd o Aberfield, Brecknock Hill Cheviot a Defaid Caled Epynt ac mae'n bwriadu cynyddu niferoedd defaid croes ymhellach. Mae wedi cyflwyno systemau pori padogau ac wedi lleihau costau bwydo yn y gaeaf gan dyfu mwy o swêj, betys porthiant a maip sofr; ac mae'r gwyndonnydd newydd a heuwyd yn cynnwys un ai chicori, llyriad neu gymysgedd perlysiau. Mae hefyd yn gwneud gwaith ffensio, aredig a hau fel contractwr.

Cred Robert bod agwedd agored tuag at newid yn hanfodol ar gyfer llwyddo mewn busnes. Mae'n dweud, er bod rhywbeth wedi cael ei wneud mewn ffordd benodol erioed, nid yw'n golygu nad oes modd ei wella.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae daliad organig Romeo yn ymestyn dros 60 erw. Yn wreiddiol yn fferm laeth fechan, mae 40 erw bellach yn cael eu defnyddio ar gyfer cylchdroadau tair i bedair blynedd ar gyfer tatws neu gnydau bresych, cnydau llysiau a chnwd ffrwythlondeb neu laswellt. Mae Romeo hefyd yn tyfu cnydau salad yn yr haf.

Mae'n marchnata ei gynnyrch ar gyfryngau cymdeithasol, yn gwerthu bocsys o lysiau gydag opsiwn i gludo neu gasglu'r cynnyrch, ond mae hefyd yn gwerthu trwy gyfanwerthwr lleol.

Mae ei sgiliau a'i brofiad yn ymwneud â phob agwedd ymarferol o gynhyrchu garddwriaethol, gan gynnwys dewis tir addas, trin, plannu, hadu, cenhedlu, chwynnu, cynaeafu ynghyd â chynghori ynglŷn â'r offer cysylltiedig, plâu ac afiechydon, a chanfod hadau a phlanhigion.

Y MENTOR – CRYNODEB

Am y 12 mlynedd diwethaf mae Siân Bushell wedi gweithio ledled y DU ac Iwerddon fel Hwylusydd Olyniaeth. Wedi ei geni a'i magu yn Sir Benfro, mae Siân yn ferch fferm a bu'n rhedeg busnes ffermio blaeth llwyddiannus am dros 25 mlynedd; felly mae ganddi brofiad personol o ddelio gyda materion olyniaeth.

Yn 2006, teithiodd Siân i Awstralia i dderbyn hyfforddiant gan Lyn Sykes, arbenigwr olyniaeth adnabyddus iawn cyn dechrau busnes ei hun. Yn hwylusydd hyfforddedig, mae Siân yn rhedeg cyrsiau olyniaeth ar gyfer teuluoedd fferm ar draws y wlad i'w cefnogi trwy'r broses o drefnu olyniaeth fferm, sy'n aml yn broses anodd.

Mae gan Siân sgiliau cyfathrebu a chyflwyno da ac mae ganddi'r gallu i ysgogi ac ysbrydoli eraill i ddechrau'r sgwrs olyniaeth. Mae gan Siân sgiliau trefnu da ac mae'n mwynhau heriau newydd a datblygu syniadau newydd.

Mae Siân yn gweithio ychydig yn wahanol i'r mentoriaid eraill. Yn lle 15 awr o fentora, mae Sian yn cynnig cyfarfod un diwrnod ac adroddiad dilynol.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Sion a'i wraig yn denantiaid ar fferm 49ha Cyngor Sir Powys a hefyd yn gweithio gyda'i deulu yng nghyfraith yn ffermio 365ha o dir mynyddig. Maent yn ffermio 900 o ddefaid Mynydd Cymreig ac yn cadw diadell o 320 o famogiaid Romney ag yn croesi Romney ac Aberfield. Maent hefyd yn magu rhwng 20-25 o loi yn flynyddol gan ei gwerthu yn 15-16 mis oed fel heffrod magu.

Sion oedd cydlynnydd Prosiect TAG i Fenter a Busnes am chwe blynedd ac wedi bod yn recordio'r ddiadell o fewn y denantiaeth gan ddefnyddio system EID ers 2009. Fel mentor, gall Sion rannu gwybodaeth a dealltwriaeth eang i fusnesau sy'n cychwyn defnyddio EID am y tro cyntaf a rhai sydd eisioes wedi sefydlu systemau ac am ei defnyddio yn fwy effeithiol.



TEIFI DAVIES
Llwynhelyg (Ceredigion)



Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Arallgyfeirio fferm Gwerthu o giât y fferm



TERRIG MORGAN
Carreg y Llech (Sir y Fflint)



Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Cynllunio olyniaeth, Tyfu glaswellt, Sgiliau busnes



TIM PRICHARD
Castellau Fawr Farm (Morgannwg)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Bridio defaid pedigri, Ffrwythloni artiffisial mewn defaid



TONY DAVIES
Henfron (Maesyfed)

Sectorau allweddol:



Arbenigeddau neu ddiddordebau:

Ynni Adnewyddadwy

Y MENTOR – CRYNODEB

Dan arweiniad Teifi, a'i bartner Jennifer (sydd hefyd yn fentor), mae'r fferm deuluol wedi tyfu o 22.5 erw i 100 erw trwy brynu a rhentu tir. Maent yn rhannu eu hamser rhwng ffermio 100 o erwau a buches 50-60 o wartheg a'u siop fferm sy'n arbenigo mewn bwyd a diod Gymreig. Mae'r busnes siop fferm, Siop Fferm Llwynhelyg, wedi galluogi Teifi i aros ar y fferm deuluol ac wedi arwain at sawl llwyddiant yng Ngwobrau Gwir Flas Cymru a gwobrau busnes lleol y DU. Nhw sy'n dal y wobr ar gyfer 'Adwerthwr Annibynnol Gorau 2016 – Cymru' ar hyn o bryd.

Mae Teifi wedi bod yn gweithio yn y diwydiant bwyd a ffermio ers gadael yr ysgol, gan ddechrau yn y diwydiant llaeth gyda chwmni Unigate Foods yn llaethdy Castell Newydd Emlyn, cyn symud ymlaen at swydd datblygu cynnyrch, ac yna dychwelyd i'r fferm deuluol.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Terrig yn gyn ffermwr arddangos Cyswllt Ffermio. Mae'n berchen ar 180 erw ac yn rhentu 267 erw, gan gynnwys 35 erw o wenith gaeaf a dyfir ar gyfer bwyd i'r da byw. Roedd Terrig yn newydd ddyfodiad i'r diwydiant llaeth ar ddechrau'r 80au ac erbyn hyn mae ganddo 225 o wartheg a 140 o stoc ifanc gan gynnwys 67 llo gwryw.

Er bod y diwydiant wedi newid, mae Terrig yn teimlo y byddai ei brofiad o ddisgyblaeth a ffocws yn dal i fod yn berthnasol ac mae'n dal i gynhyrchu cynlluniau busnes a llif arian yn flynyddol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae wedi buddsoddi mewn sied gwibicl newydd, parlwr godro, storfa slyri a phaneli solar.

Y MENTOR – CRYNODEB

Mae Tim yn berchen ar 120 erw, gydag 20 erw ohono'n goetir. Mae ganddo 100 o famogiaid Charolais pedigri a 50 o hesbinod, ynghyd â 125 o famogiaid masnachol. Yn ogystal â chadw defaid Wyneblas Caerlŷr, penderfynodd Tim ddatblygu'r brid Charolais yn ei ddiadell. Mae wedi bod yn defnyddio ffrwythloni artiffisial ers 20 mlynedd a throsglwyddiad embryo ers 10 mlynedd i wella geneteg y mamogiaid gorau.

Mae Tim yn gwneud yr holl waith paratoi ar gyfer y broses, yn chwistrellu'r mamogiaid ddwywaith y dydd am bedwar diwrnod. Cyrhaeddodd gyfartaledd o 19 embryo i bob mamog yn 2014 a 2015. Mae mwyafrif y Charolais yn y rhaglen ffrwythloni artiffisial a'r trosglwyddiad embryo yn wyna ym mis Rhagfyr.

Y MENTOR – CRYNODEB

Tony yw'r pumed genhedlaeth i ffermio fferm cwbl organig Henfron, yn ychwanegol mae ganddo 680ha o dir mynyddig gyda 80% ohono mewn ardal SODdGA. Mae rheolaeth y fferm yn canolbwyntio ar welliannau amgylcheddol gyda chytundebau Glastir Organig, Glastir Uwch a chytundeb Creu Coetiroedd Glastir.

Dechreuodd ei frwdfrydedd dros arallgyfeirio i ynni adnewyddadwy 30 mlynedd yn ôl, mae ganddo hefyd 20 mlynedd o brofiad gydag ynni solar PV, tyrbinau gwynt bychain a systemau gwresogi biomas, gydag arbenigedd pellach mewn systemau storio ynni oddi ar y grid ac mewn batri. Gyda hanes o wneud ceisiadau a hawlio'r Tariffau Cyflenwi Trydan (FiT) yn ogystal â'r 'Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy' (RHI), ac mae ganddo'r arbenigedd i arwain pobl drwy'r broses hawlio.



Meddylwch yn greadigol bob amser a pheidwch â bod ofn gwneud pethau'n wahanol. Er bod rhywbeth wedi cael ei wneud mewn ffordd benodol erioed, nid yw hynny'n golygu nad oes ffordd well.



Rhannwch eich problemau, mae yna bobl sydd wedi bod trwy'r un pethau bob amser.



Ceisiwch ddysgu oddi wrth gangymeriadau pobl eraill fel nad oes raid i chi eu gwneud eich hun.



Gwnewch gais am fentor i edrych yn fanwl ar eich amcanion a chael rhywun yna i gadw eich busnes ar y trywydd iawn.



Mae'n haws arbed punt nac ennill punt. Canolbwyntiwch ar yr hyn fedrwch chi ei reoli a bydd y farchnad yn gofalu am ei hun.



Anelwch yn uchel, gwnewch eich gorau a gwrandawch ar eraill sy'n rhannu'r un meddylfryd â chi, yn enwedig y rheiny sydd ar ben arall y gadwyn gyflenwi.



Cadwch feddwl agored o ran posibiliadau newydd.



Gwnewch y gorau o botensial eich fferm.



Gall arallgyfeirio ddod ag incwm ychwnaegol i'r fferm, ond byddwch yn ymwybodol bod ambell i fenter arallgyfeirio yn gallu bod yn llawer o waith (ond yn grêt os oes gennych genhedlaeth iau yn barod i ymuno â'r busnes fferm).



Os ydych chi'n dechrau am y tro cyntaf neu'n addasu system, gosodwch dargedau clir o ran allbwn cyn gwneud y buddsoddiad/newid.



Y prif gyfyngiad ar allu eich fferm i gynhyrchu yw eich dychymyg.



Os oes gennych chi freuddwyd, gweithiwch i'r gwireddu. Gydag uchelgais, agwedd benderfynol a gwaith caled, gallwch gyflawni unrhyw beth.



Cofiwch fod dysgu'n broses barhaus, hyd yn oed nawr, rwy'n dysgu rhywbeth newydd am ffermio bob blwyddyn.



Cofiwch gyfaddef pan fydd pethau'n mynd o chwith a dysgwch o unrhyw gamgymeriadau. Methiant yw pan fyddwch yn peidio ag ymdrechu, nid pan na fyddwch yn llwyddo.



Dwi'n credu bod pawb yn haeddu cyfle i lwyddo, ond ar y ffordd does dim o'i le mewn cael ychydig o help.



Mae angen i chi ddeall, gwerthfawrogi a chydweithio gyda'r farchnad. Byddwch yn barod i fod yn agored, ac i addasu i arferion cyfnewidiol y cwsmer a gofynion y farchnad.



Dydych chi fyth yn rhy hen i ddysgu.



Ceisiwch gadw meddwl positif bob amser a cheisiwch gymysgu â phobl bositif. Manteisiwch ar bob cyfle i fynd oddi ar y fferm a dysgu gan eraill.

Sut i gysylltu â ni

Mae Canolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar agor rhwng 9yb a 5yp o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau cyhoeddus.

Cysylltwch â ni...
Cyswllt Ffermio

08456 000 813

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Gallwch hefyd ein dilyn ar:

FarmingConnect

@FarmingConnect

@cyswlltffermio

Mae cofrestru yn broses syml a chyflym ar gyfer unigolion cymwys un ai ar lein (gweler cyfeiriad y wefan uchod) neu trwy gysylltu â'r Ganolfan Wasanaeth.

Bydd angen i chi ddarparu:

- Eich Rhif Cyfeirnod Cwsmer (CRN) a'ch Rhif Daliad (CPH) os yn berthnasol.

Bydd angen i bawb a gofrestrodd gyda'r rhaglen Cyswllt Ffermio blaenorol, h.y. cyn Hydref 2015, ail-gofrestru.

HYFFORDDIANT

A allai ein cyrsiau hyfforddiant byr eich helpu chi i gyflawni eich amcanion busnes?

A allwn ni eich helpu i adnabod y hyfforddiant mwyaf buddiol i chi, aelodau cymwys o'ch teulu a'ch gweithwyr?

Mae rhestr lawn o'r cyrsiau sydd ar gael a gwybodaeth bellach ar wefan Cyswllt Ffermio.



CEFNOGI MENTRAU AR Y CYD
SUPPORTING JOINT VENTURES

Ydych chi yn newydd ddyfodiad sy'n chwilio am ffordd i mewn i amaeth? Ydych chi eisiau arafu neu cymryd cam yn ôl o'r diwydiant a darparu cyfle i newydd ddyfodiad?

Beth am ystyried menter ar y cyd?

Mae Mentro wedi ei lunio i helpu paru ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n chwilio am gyfle i gamu'n ôl o'r diwydiant gyda newydd ddyfodiad sy'n chwilio am ffordd i mewn i ffermio.

MENTRO BACHWCH EICH CYFLE I FFERMIO

Ydych chi eisiau Mentro i redeg eich busnes ffermio eich hun? Mae Mentro ynparu newydd ddyfodiad gyda thirfeddianwyr sydd eisoes wedi sefydlu ac yn cynnig arweiniad busnes a chyfreithiol i sefydlu menter ar y cyd.

www.llyw.cymru/cyswlltffermio



GWASANAETH CYNGHORI CYSWLLT FFERMIO

A ydych chi'n ffermwr neu goedwigwr a fyddai'n dymuno cael cyngor ynglŷn â mater penodol sy'n effeithio ar eich busnes?

Cyngor un-i-un – wedi'i ariannu hyd at **80%**

Cyngor grŵp – wedi'i ariannu hyd at **100%**

Gallai'r cyngor ymwneud â phynciau gan gynnwys:

- **Cyngor Busnes** – adolygiad llawn o'ch busnes, gan edrych ar opsiynau a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol neu arfarniad busnes, dadansoddiad cyfredol o'ch busnes.
- **Tyfu mwy o laswellt** – cael y gorau o'r pridd, technegau ail-hadu a defnyddio gwrteithiau/slyri a thail buarth
- **Maeth** – dognau cytbwys, dadansoddi silwair, strategaethau bwydo
- **Magu heffrod** – costau magu heffrod, protocolau a thargedau twf
- **Gwella ansawdd llaeth** – gostwng cyfrif celloedd/mastitis, cynyddu protein llaeth, cynyddu braster menyf
- **Rheoli heintiau a chynllunio iechyd anifeiliaid**

- **Gwella ffrwythlondeb a geneteg** – cynyddu cyfraddau cenhedlu, cynnydd mewn cyfraddau ffrwythloniad, pecynnau economeg a monitro
- **Rheolaeth coetir cynaliadwy**
- **Ychwanegu gwerth at goed fferm a marchnadoedd coed**
- **Tyfu coed a sefydlu meithrinfa goed i gyflenwi'r farchnad** ...neu **UNRHYW** bwnc technegol cymwys sy'n berthnasol i chi / i'r grŵp

Gwybodaeth llawn am y gwasanaeth i'w gael ar ein gwefan
www.llyw.cymru/cyswlltffermio